

Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-17-01(min)

COFNODION

Dyddiad: Dydd Mercher, 5 Rhagfyr 2001
Amser: 2.00 i 5.00pm
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Yn bresennol: **Aelodau o'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
Ann Jones Dyffryn Clwyd

(Cadeirydd dros dro)

Peter Black	Gorllewin De Cymru
Brian Gibbons	Aberafan
Geraint Davies	Rhondda
Brian Hancock	Islwyn
Jane Hutt (Gweinidog)	Bro Morgannwg
Huw Lewis	Merthyr Tydful a Rhymni
Dai Lloyd	Gorllewin De Cymru
David Melding	Canol De Cymru
Rod Richards	Gogledd Cymru

Yn Bresennol

Don Touhig, AS Is-ysgrifennydd Gwladol Cymru

Swyddogion

Dr Bernadette Fuge	Is-adran Ansawdd yr NHS
Ann Lloyd	Cyfarwyddwraig yr NHS yng Nghymru
Joanest Jackson	Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol
Stephen Redmond	Is-adran Adnoddau Dynol yr NHS
Sherry Rees	Cyfarwyddiaeth Safonau Gofal Cymru
Helen Thomas	Cyfarwyddwraig, Grwp Gofal Cymdeithasol
Ruth Treharne	Tîm Mesurau'r NHS

Ysgrifenyddiaeth:

Jane Westlake	Clerk y Pwyllgor
Claire Morris	Dirprwy Glerc y Pwyllgor

Eitem 1: Ymddiheuriadau ac Amnewidiadau

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Lynne Neagle a Kirsty Williams. Cymerodd Huw Lewis le Lynne Neagle a chymerodd Peter Black le Kirsty Williams.

1.2 Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa o'r gofyniad, o dan Reol Sefydlog 4.5, i ddatgan unrhyw fuddiannau cyn cymryd rhan yn y gweithrediadau. Gwnaed y datganiadau canlynol:

- Peter Black, aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;
- Geraint Davies, fferyllydd ac aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf;
- Brian Hancock, ymgynghorydd iechyd galwedigaethol, diogelwch a'r amgylchedd;
- Dai Lloyd, meddyg teulu ac aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe.

Eitem 2: Mesur Diwygio'r NHS a Phroffesiynau Gofal Iechyd

Papur: HSS-17-01(p.1)

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Don Touhig, AS, Is Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

2.2 Dywedodd Don Touhig mai dyma'r tro cyntaf i Weinidog yn Swyddfa Cymru fynychu pwyllgor pwnc y Cynulliad ac roedd yn gobeithio mai hwn fyddai'r ymweliad cyntaf o lawer. Dywedodd mai canlyniad llawer o drafod ac ymresymu rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Swyddfa Cymru oedd y Mesur a oedd yn awr gerbron y Senedd. Roedd erbyn hyn yn ei ail wythnos o gam y Pwyllgor yn Nhí 'r Cyffredin. Roedd Cymalau 1-10 a 22 o'r Mesur wedi cael eu trafod hyd yn hyn. Roedd hyn yn cynnwys Cymal 6, a oedd yn argymhell diwygiadau i Ddeddf NHS 1977 i alluogi'r Cynulliad i sefydlu Byrddau Iechyd Lleol (BILl) a rhoi grym i'r Cynulliad i'w cyfarwyddo i ymgymryd â thasgau a swyddogaethau ar ei ran; Cymal 9, a oedd yn darparu ar gyfer ariannu'r LHBs; a Chymal 22 a oedd yn gwneud gweithredu strategaethau iechyd a lles yn un o ddyletswyddau'r LHBs. Byddai cam y Pwyllgor wedi dod i ben erbyn 18 Rhagfyr a bydd Adroddiad Tí 'r Cyffredin a'r Trydydd Darlleniad yn digwydd yn y Flwyddyn Newydd.

2.3 Mewn ymateb i'r papur a chyflwyniad y Gweinidog, gwnaeth yr Aelodau y pwyntiau canlynol:

- Yn ystod hynnt Deddf Llywodraeth Cymru drwy'r Senedd, roedd addewid wedi'i gwneud gan Ron Davies, Ysgrifennydd Gwladol Cymru bryd hynny, y byddai unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol a oedd yn effeithio ar faterion wedi'u datganoli yng Nghymru yn cael eu trafod gan y Cynulliad cyn yr Ail Ddarlleniad yn Nhí 'r Cyffredin neu Dí 'r Arglwyddi. Nid oedd hyn wedi digwydd gyda Deddf Diwygio'r NHS.
- Mynegwyd pryder ynglŷn â Chymal 6 (1), a fyddai'n mewnosod A. 16BB yn Neddf Iechyd 1997. Cyfeiriai A.16BB5 at ddefnyddio offerynnau ysgrifenedig. Byddai offerynnau ysgrifenedig yn cael eu cyhoeddi gan y Gweinidog ac ni fyddai'r Cynulliad yn gallu eu trafod. Ni chafodd pwerau tebyg eu cynnwys yng Nghymal 22.
- Roedd rhai Aelodau o'r farn y dylai Cymru gael ei Chomisiwn Gwella Iechyd (CHI) a'i Chyngor Proffesiynau ym Maes Iechyd ei hun.
- Gallai caniatáu i'r Cynulliad drosglwyddo pwerau a swyddogaethau gwahanol i LHBs gwahanol arwain at greu prif LHBs.
- Cytunwyd, yn sgîl ei brofiad o ystyried y Mesur hwn, y byddai angen i'r Pwyllgor gynllunio a strwythuro ei ystyriaeth o Fesurau yn well yn y dyfodol.

2.4 Mewn ymateb i sylwadau'r Aelodau, gwnaeth Don Touhig y pwyntiau canlynol:

- Roedd yn anodd iawn uno amserlenni San Steffan a'r Cynulliad. Roedd cymalau Cymru yn y Mesur wedi eu cynnwys i alluogi'r NHS i gael ei ailstrwythuro yng Nghymru yn ôl y bwriad. Ni fyddai Mesur yr NHS (Cymru) yn cael ei gymeradwyo'n ddigon cyflym.
- San Steffan oedd yn gyfrifol am archwilio deddfwriaeth sylfaenol ac roedd gan ASau Cymru ddigon o gyfle i archwilio ym Mhwyllgor Tí 'r Cyffredin.
- Corff hyd braich oedd CHI a chredid bod ei swyddogaethau yn cael eu gwneud orau ar sail Cymru a Lloegr, barn a gefnogid gan bobl broffesiynol ym maes iechyd. Roedd yr un peth yn wir am Gyngor y Proffesiynau ym Maes Iechyd. Ni ddylai hyn olygu na ellid ystyried amrywiadau rhanbarthol.
- Roedd Cymal 6, Adran 16BB, is-adran 5, yn rhoi'r pŵer i roi cyfarwyddyd i'r Cynulliad ac nid i Weinidog unigol. Y Cynulliad fyddai'n penderfynu pa bwerau y dylid eu rhoi i Weinidogion.
- Y Cynulliad oedd y corff a oedd yn gyfrifol am sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn cael eu darparu yng Nghymru. Darparu'r fframwaith deddfwriaethol yr oedd San Steffan.
- Roedd gan Aelodau'r Cynulliad y cyfle i archwilio Offerynnau Statudol.
- Roedd gan wahanol ardaloedd o Gymru anghenion gwahanol ac roedd yn bwysig gallu teilwra darpariaeth gwasanaethau iechyd i'r anghenion hynny.

2.5 Gwnaeth Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y pwyntiau canlynol:

- Roedd yn bwysig bod yr ystod lawn o gyfleoedd ar gael i'r Cynulliad trwy gyfrwng y Mesur. Roedd hyn yn cynnwys y defnydd o Offerynnau Ysgrifenedig a'r gallu i drosglwyddo pwerau gwahanol i'r LHBs.
- Byddai'r Pwyllgor yn cymryd rhan lawn mewn ystyried deddfwriaeth eilaidd a byddai amser yn cael ei gynnwys yn y flaenraglen waith i alluogi hyn.
- Roedd CHI yn ymwneud yn bennaf â gwella safonau. Cynhaliodd pobl broffesiynol ym maes iechyd yng Nghymru arolygon yn Lloegr ac fel arall ac roedd yn bwysig cyfnewid arbenigedd a phrofiad yn y modd hwn.
- Byddai aelod o Gymru ar y Cyngor Proffesiynau ym Maes Iechyd.
- Roedd y trafodaethau ar gontractau meddygon teulu ar y gweill. Byddai'r newidiadau diweddaraf i'r contract yn sicrhau isafswm safon a byddai yna hyblygrwydd i ystyried materion Cymreig.
- Byddai Atebion Iechyd Cymru yn cael ei leoli yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Corff hyd braich ydoedd a oedd yn uniongyrchol atebol i'r Cynulliad.
- Byddai LHBs yn cael eu creu gan y Grwpiau Iechyd Lleol presennol. Ni fyddent yn cael pwerau tan Ebrill 2003 felly ni fyddai angen y ddeddfwriaeth i weithredu'r newid hwnnw tan hynny.

Gweithredu

- Amser i'w gynnwys yn y flaenraglen waith ar gyfer trafod deddfwriaeth eilaidd.

Eitem 3: Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru

Papur: HSS-17-01(p.2)

3.1 Mewn ymateb i'r papur a chyflwyniad y Gweinidog, gwnaeth yr Aelodau y pwyntiau canlynol:

- Roedd yr arian yn y sector gwirfoddol yn gyfyngedig a gallai safonau uwch eu cyfyngu ymhellach.
- Mynegwyd pryder y gallai bodloni'r safonau newydd olygu y byddai llai o bobl yn cael eu trin mewn unedau cyffuriau ac alcohol.
- Derbyniwyd bod y broses reoleiddio yn angenrheidiol ond roedd yn bwysig nad oedd mor fiwrocratig nes ei bod yn gwasgu pobl allan o'r sector gofal.
- Roedd angen cydnabod goblygiadau bodloni'r safonau newydd o ran cost.

3.2 Mewn ymateb i sylwadau'r Aelodau, gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol:

- Roedd y project gweithredu yn dal ar y llwybr iawn i'w gyflenwi erbyn 1 Ebrill 2002.
- Roedd ymatebion hwyr i'r ymgynghoriad wedi cael eu derbyn.
- Byddai'r un egwyddorion yn cael eu gweithredu ym mhob sefyllfa ofal o ran safonau a diogelu.
- Roedd cynlluniau peilot yn cael eu cynnal ar brosesau archwilio a byddai gwersi'n cael eu dysgu o'r cynlluniau peilot i leihau biwrocratiaeth i'r eithaf yn unol â rheoliad da.
- Os y consensws barn ar sail yr ymgynghoriad ar reoliadau cartref (a oedd heb ei gynnal hyd yn hyn) fyddai mai ansawdd y gofal yr oedd unigolion yn ei dderbyn oedd y ffactor pwysig, byddai hynny'n cael ei ystyried wrth ddrafftio'r rheoliadau.
- Roedd cyfarfodydd wedi'u cynnal gyda sefydliadau gwirfoddol cyffuriau ac alcohol i drafod sut y gallent fodloni'r safonau a phryd.
- Pe byddai pobl yn dymuno parhau i rannu ystafell neu am aros mewn ystafell nad oedd yn bodloni'r safonau ffisegol yna byddent yn gallu gwneud hynny. Rhoi'r gallu i bobl wneud dewis deallus oedd pwrpas y safonau.
- Dylai'r un egwyddorion o annibyniaeth, hunan-barch, lle a chydaddoldeb fod yn berthnasol beth bynnag y bo'r lleoliad.
- Roedd gwaith ar y gweill i ganfod y pwysau gwaethaf a galluogi'r £5m ychwanegol i gael ei ddyrannu mewn ffordd strategol. Cafwyd ymgynghoriad ar hyn gyda'r gwasanaeth a byddai'r canlyniadau'n cael eu cyhoeddi'n fuan.

Eitem 4: Cynllunio'r Gweithlu

Papur: HSS-17-01(p.3)

4.1 Mewn ymateb i'r papur a chyflwyniad y Gweinidog, gwnaeth yr Aelodau y pwyntiau canlynol:

- Cydnabuwyd cynnydd mewn lefelau staffio.
- Dylai addysg feddygol fod yn hygyrch i bobl o bob cefndir.
- Roedd angen cymryd camau i sicrhau bod gan Sefydliadau Addysg Uwch bolisiau mynediad a oedd yn cynnig cyfle cyfartal.

- Roedd angen rhagolygon tymor byrrach hyd at 2005 a data ar gyfer meincnodi cynnydd.
- Nid oedd yn glir a oedd y targedau'n ymwneud ag angen cyfredol neu a oeddent yn rhagolygon a oedd yn ystyried y byddai safonau trin a gofal yn codi.
- Roedd angen i gynlluniau yn ymwneud â'r gweithlu ystyried nifer y bobl a oedd yn gadael cyflogaeth yr NHS.
- Roedd y nifer fawr o feddygon teulu o darddiad Asiaidd sy'n cael eu cyflogi yng nghymunedau'r Cymoedd ar fin ymddeol a byddai hyn yn gwneud y prinder meddygon teulu yno yn waeth.
- Dylid ystyried noddï myfyrwyr meddygol, a fyddai wedyn yn dychwelyd i'r sefydliad a wnaeth eu noddï am gyfnod penodol ar ôl graddio.
- Roedd cynllunio yng Nghymru y tu ôl i Loegr a'r Alban, ac felly gallai Cymru fod o dan anfantais wrth recriwtio.

4.2 Cadarnhaodd Stephen Redmond mai'r ffigurau a geir yn Atodiad A yw cyfanswm y myfyrwyr a fyddai wedi cwblhau eu hyfforddiant erbyn 2005. Roedd yr holl ffigurau yn cyfeirio at staff cyfwerth ag amser cyflawn. Nid oedd y ffigurau yn cynnwys meddygon teulu am fod angen mwy o waith ar ofal sylfaenol.

4.3 Mewn ymateb i sylwadau'r Aelodau, gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol:

- Adroddiad o'r gwaith oedd ar y gweill oedd y papur. Roedd mwy o waith yn cael ei wneud i ddilysu'r wybodaeth a byddai papur arall yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn y gwanwyn.
- Roedd nifer o gynlluniau ar y gweill wedi eu hanelu at ddenu pobl i hyfforddiant:
- Roedd grantiau ar gael mewn rhai meysydd o hyfforddiant gofal iechyd, ond nid i fyfyrwyr meddygol
- roedd y cynllun dychwelyd i ymarfer yn darparu gofal plant i bobl oedd am ddychwelyd i gyflogaeth yr NHS; a
- lluniwyd amlinelliad o achos busnes ar gyfer cynllun mynediad i addysg feddygol yng Nghymru i raddedigion.
- Roedd angen i gynlluniau'r gweithlu fynd i'r afael ag anghenion lleol a hefyd y rhesymau am y trosiant uchel mewn staff.
- Roedd gwaith ar y gweill, mewn partneriaeth â Gyrfaedd Cymru, i dargedu pobl ifanc nad oeddent, efallai, wedi ystyried gyrfa nyrsio neu yrfa feddygol oherwydd eu cefndir cymdeithasol.
- Roedd Coleg Meddygol Prifysgol Cymru yn gwneud gwaith ar strategaeth recriwtio wedi ei anelu at ehangu mynediad i addysg feddygol.

4.4 Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn derbyn papur arall yn y gwanwyn pan fyddai'r cynlluniau wedi eu dilysu. Dylai hwn fod ar y cyd â chyflwyniad gan y Coleg Meddygol a darparwyr hyfforddiant eraill ar y camau yr oeddent yn eu cymryd i ehangu'r mynediad i hyfforddiant.

Gweithredu

- Y Gweinidog i ddarparu papur arall yn y gwanwyn.

Eitem 5: Materion yn Deillio o Adroddiad Kennedy

Papur: HSS-17-01(p.4)

5.1 Mewn ymateb i'r papur a chyflwyniad y Gweinidog, gwnaeth yr Aelodau y pwyntiau canlynol:

- Cafodd argymhellion Adroddiad Kennedy ac ymateb y Gweinidog eu croesawu.
- Amlygwyd yr angen am fod yn fwy agored. Yn y gorffennol roedd archwiliad clinigol wedi'i gynnal yn fewnol. Dylai pobl leyg fod yn rhan ohono.
- Dylid ystyried rhoi holiaduron i berthnasau cleifion am mai hwy yn aml sydd yn fwyaf ymwybodol o'r driniaeth a dderbyniwyd. Roedd angen ystyried amseriad rhoi holiadur i gleifion. Gallai aros tan eu bod adref ac yn gwella fod yn fwy priodol na'i roi wrth iddynt gael eu rhyddhau ar ôl triniaeth.
- Roedd angen i'r gwasanaethau ar gyfer plant fod yn integredig. Roedd angen sgiliau arbennig ar lawfeddygon a chlinigwyr eraill i drin plant.
- Roedd angen hyfforddi'r staff i ganolbwyntio'n fwy ar blant, nid yn unig mewn meddygaeth a gweithdrefnau ond o ran effeithiau seicolegol hefyd. Roedd angen iddynt hefyd feddu ar y sgiliau i allu siarad â chleifion a thawelu eu hofnau.
- Nodwyd cyfranogiad posibl y Comisiynydd Plant fel llais ar gyfer iechyd plant.
- Byddai'r gwersi a gafodd eu dysgu o brofiad Bryste yn bwysig wrth ddatblygu'r Ysbyty Plant yng Nghymru.
- Nid oedd y diwylliant presennol o roi bai ac achosion cyfreithiol yn ffafriol i gyfaddef camgymeriadau a dysgu o ganlyniad iddynt. Roedd angen newid yn amgyffrediad y cyhoedd.
- Mynegwyd pryder ynglŷn â llawfeddygon yn cyflwyno arferion newydd heb eu dilysu'n gywir.
- Roedd angen newid y ffordd yr oedd datgelwyr cyfrinachau yn cael eu hystyried.
- Byddai'r Aelodau yn croesawu cyflwyniad o ganlyniadau'r astudiaeth o ddiwylliant ysbytai.

5.2 Mewn ymateb i sylwadau'r Aelodau, gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol:

- Byddai'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol yn gyfrifol am Gofrestr Diogelwch ac Effeithlonrwydd Gweithdrefnau Ymwthiol Newydd.
- Roedd angen cydbwysedd rhwng perygl a bai. Byddai'r gallu i rannau camgymeriadau a phryderon yn rhan bwysig o'r diwylliant newydd.
- Byddai diogelu buddiannau proffesiynol a rheoliadol yn cael ei herio. Ni fyddai gweithio yn erbyn symudiad tuag at ddiwylliant cadarnhaol yn cael ei ganiatáu.

5.3 Cytunwyd y byddai'r flaenraglen waith yn cael ei harchwilio i weld a ellid canfod amser ar gyfer cyflwyniad ar yr astudiaeth o ddiwylliant ysbytai. Byddai'r Gweinidog hefyd yn hysbysu'r Aelodau trwy ei hadroddiad misol.

Gweithredu

- Byddai derbyn cyflwyniad ar astudiaeth o ddiwylliant ysbytai yn cael ei ystyried.

- Byddai'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei darparu yn adroddiad misol y Gweinidog.

Eitem 5: Y Cofnodion

Papur: HSS-16-01(min)

6.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd, yn amodol ar ddiwygio ail bwynt bwled paragraff 3.2, iddo ddarllen, "Roedd llawer o waith da yn cael ei wneud gan Bartneriaethau Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ledled Cymru, er bod peth pryder wedi'i fynegi am lefel y ddarpariaeth gofal plant oedd yn cael ei gyflenwi."

6.2 Byddai'r Gweinidog yn ysgrifennu at Brian Gibbons yn rhoi manylion am nifer y safleoedd gofal plant oedd yn cael eu darparu. Byddai copi'n cael ei ddosbarthu i'r Aelodau.

Eitem 7: Papurau i'w Nodi : HSS-17-01(p.5) : Fflworideiddio Cyflenwadau Dwr yng Nghymru

7.1 Trafododd y Pwyllgor y papur yn fras gan ddod i'r casgliad bod angen cyfle i drafod yr amrywiaeth llawn o faterion.

HSS-17-01(p.6) : Arolwg y Pwyllgor Diwylliant o'r Iaith Gymraeg

7.2 Pwysleisiwyd yr angen i bobl allu disgrifio eu symptomau a siarad am eu pryderon yn eu hiaith gyntaf.

-----7d12d5f1ff1021a Content-Disposition: form-data; name="add_id_1"